

Simon Thomas AC  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Tŷ Hywel  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

3 Awst 2016

Annwyl Simon

**Deiseb P-04-660 Y Pwysau Ychwanegol sy'n Wynebu Ardaloedd Gwledig Prin eu Poblogaeth o ran Darpariaeth Addysgol**

Cafodd y ddeiseb ganlynol, a gafodd 1,049 o lofnodion, ei chyflwyno gan 'Achub Ysgolion Powys' yn y Cynulliad diwethaf.

*Rydym ni, sydd wedi llofnodi isod, yn galw ar Lywodraeth Cymru i gydnabod yr heriau ariannol o ddarparu lefel briodol o ddarpariaeth addysgol mewn ardaloedd gwledig prin eu poblogaeth. Mae toriadau mewn gwariant yn cael effaith niweidiol ar gymunedau ysgolion, i'r graddau bod plant yn gadael eu sir breswyl (ac yn gynyddol, yn siroedd y gororau fel Powys, yn gadael Cymru) er mwyn parhau â'u haddysg. Mae ysgolion a'r chweched dosbarth ar fin cyrraedd pen eu tennyn, wedi'u llethu gan y bygythiad parhaus i gau. Mae ein plant yn cael eu gorfodi i deithio pellteroedd anghynladwy ar is-ffyrdd, gan chwalu grwpiau o ffrindiau ac ychwanegu hyd at ddwy awr at y diwrnod ysgol. Mae addysg feithrin bellach dan fygythiad hefyd. Gyda thoriadau parhaus i gyllidebau ysgolion, sy'n achosi diswyddiadau dro ar ôl tro, mae'n amhosibl darparu addysg o'r ansawdd y mae athrawon wedi'u hyfforddi i'w darparu, ac y mae ein pobl ifanc yn ei haeddu. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ymchwilio ar unwaith i'r heriau ychwanegol i addysg mewn ardaloedd gwledig prin eu poblogaeth, ac i gynyddu'r cyllid i ardaloedd fel Powys yn unol â hynny. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i ymchwilio ar unwaith i'r heriau ychwanegol i addysg mewn ardaloedd gwledig prin eu poblogaeth, ac i gynyddu'r cyllid i ardaloedd fel Powys yn unol â hynny. Os yw Cymru ddatganoledig am ffynnu, mae angen i'n Llywodraeth arwain y trafodaethau ar ariannu yn San Steffan. Mae angen i chi fod ar ein hochr ni!*



Ystyriodd y Pwyllgor Deisebau y ddeiseb yn ein cyfarfod ar 12 Gorffennaf pan gytunwyd i gau'r ddeiseb. Fodd bynnag, wrth wneud hynny, cytunodd y Pwyllgor y dylwn i ysgrifennu atoch fel Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid fel y gallai'r materion a godwyd gan y ddeiseb gael eu hystyried wrth i chi drafod y cylch cyllideb nesaf.

Yr wyf yn ysgrifennu mewn termau eithaf tebyg at Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams AC, ac at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford AC.

Yn gywir

A handwritten signature in blue ink, appearing to read 'Mike', is written over a diagonal line that extends from the bottom left towards the top right.

Mike Hedges AC  
**Cadeirydd**